GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Powys Teaching Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau / Shared Services Partnership



Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

# SGANIO ER DIOGELWCH, ASTUDIAETH - THEATRAU ABERHONDDU CYSWLLT CLEIFION,

Ym mis Mehefin 2021 cymeradwyodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol achos busnes llawn a buddsoddiad cysylltiedig fel y camau cyntaf i sefydlu egwyddorion ac arferion Sganio Er Diogelwch ledled Cymru.

Gyda diogelwch cleifion wrth galon y rhaglen, mae safonau data a thechnoleg cipio data yn cael eu cyflwyno ar draws GIG Cymru.



Gan awtomeiddio'r cyswllt a nodwyd yn unigryw rhwng **Cynhyrchion, Lleoedd** a **Phobl.**

Bydd hyn yn helpu i atal niwed i gleifion gyda data amser real ar y pwynt gofal, ac bydd yn darparu olrheiniadwyedd ar unwaith o ddyfeisiau meddygol wedi'u mewnblannu pe bai angen galw claf yn ôl.

Yn sail i'r Rhaglen mae contract wedi'i lofnodi ag Omnicell ar gyfer Datrysiad Rheoli Rhestr (SupplyX) sy'n defnyddio'r safonau hyn a thechnoleg sganio â llaw i danategu'r manteision uchod. Mae buddion optimeiddio rhestr eiddo yn rhan annatod o SupplyX, ac ar yr un pryd yn gwneud archebu ac ailgyflenwi yn llawer llai llafurddwys a dychwelyd amser clinigol yn ôl i ofal cleifion.

# Pam Newid?

**Cofnodion cleifion**

Defnyddiodd tîm Theatrau Powys gofnodion cleifion papur i olrhain eitemau y mae angen eu holrhain i'w cleifion. Bydd y system SupplyX yn caniatáu i glaf gael ei gysylltu â chynnyrch yn ddigidol, gan ddileu'r angen i osod sticer ar gofnod papur claf.

**Galw cynnyrch yn ôl**

Os bydd eitem yn cael ei galw'n ôl, ar hyn o bryd mae elfen o amser yn cael ei dreulio i chwilio cofnodion cleifion â llaw. Bydd cyswllt claf SupplyX yn caniatáu i'r weithred hon gael ei gwneud yn ddigidol yn syth, gan ddangos a yw cynnyrch yn y claf, a pha glaf, neu ar silff mewn storfa yn barod i'w dynnu oddi ar y silff.

**Cofnodion digidol**

Bydd porthiant PAS (system gweinyddu cleifion) (yn cynnwys enw claf, rhif GIG, rhif ysbyty a dyddiad geni claf) yn bwydo i mewn i SupplyX ac yn galluogi cysylltu cynhyrchion â chleifion o fewn SupplyX.

Yna gall y bwrdd iechyd dynnu'r data hwn o SupplyX i hwyluso'r broses o alw cleifion yn ôl yn gyflymach ond hefyd i lywio costau ar lefel cleifion.

**Gwybodaeth am y cynnyrch**

Ar hyn o bryd, er mwyn olrhain cynnyrch i gofnod claf, mae angen tynnu sticer o flwch a'i glynu wrth gofnod claf. Bydd y system SupplyX newydd yn caniatáu i'r defnyddiwr olrhain Rhif Lot a Chyfresol cynnyrch, a'i gysylltu â lleoliad, boed hwnnw'n glaf neu'n silff storfa.






# Camau a gymerwyd

- Camau a gymerwyd
- Cwblhawyd asesiadau preifatrwydd / effaith data LIG angenrheidiol
- Mae'r cysylltiad rhwng PAS a SupplyX wedi'i brofi a'i gymeradwyo gan GIDC
- Gall SupplyX sganio band arddwrn claf er mwyn ei adnabod yn hawdd
- Sefydlu'r holl gynnyrch catalog i'w olrhain fel rhan o brosiect Sganio Er Diogelwch
- Crëwyd rhyngwyneb rhwng SupplyX ac Oracle i ganiatáu ar gyfer archebu wedi ei awtomeiddio, yn dilyn defnyddio cynnyrch mewn amgylchedd Theatr
  Tîm Theatrau Hyfforddi:
  - Dod o hyd i gleifion ar y system
  - Sganio cleifion a chynhyrchion am gysylltiad
  - Sut i olrhain lot a rhif cyfresol
- Cyswllt llwyddiannus rhwng cynnyrch a chlaf yn theatrau Aberhonddu a Llandrindod

# Casgliad

Mae buddsoddiad parhaus Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn y Rhaglen Sgan Er Diogelwch SupplyX wedi galluogi PCGC i ddarparu gwasanaeth effeithlon a chefnogi'r Bwrdd Iechyd i wella canlyniadau cleifion.

Mae hyn wedi arwain at y gallu i ryddhau amser clinigol yn ôl i ofal cleifion.
Mae'r prosiect wedi gallu cyflawni arbedion osgoi costau yn ogystal â buddion ariannol eraill.

Gyda chyswllt digidol cleifion Theatrau Aberhonddu, mae hyn wedi caniatáu i gynhyrchion o fewn y cwmpas gael eu cysylltu â chleifion yn eu triniaeth o fewn amgylchedd y theatr.

Mae gan y cyswllt claf digidol hwn fudd amser real i staff clinigol. Unwaith y byddant wedi'u sganio, gall staff nawr chwilio cronfa ddata SupplyX, trwy ddetholiad, i chwilio cofnodion cleifion yn electronig am wybodaeth am gynnyrch pe bai pryder ynghylch diogelwch cynnyrch neu bryder ynghylch diogelwch claf.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw'n electronig, ni fydd angen i staff nyrsio chwilio drwy gofnodion papur cleifion, gan ganiatáu i gleifion gael eu gweld, eu hysbysu a'u trin yn gyflym, os oes angen, a rhyddhau timau clinigol i ganolbwyntio ar y claf yn hytrach na chwilio cofnodion.

Mae gan y system fantais ychwanegol o archebu'n awtomatig unwaith y bydd eitem wedi'i sganio a'i chysylltu â chlaf. Mae hynny'n dileu'r angen i gofnodi'r eitem i'w harchebu â llaw yn y dyfodol trwy fewnbwn i gyfrifiadur. Felly yn rhyddhau rheolaeth deunyddiau ac amser clinigol.

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys bellach yw'r sefydliad 1af yng Nghymru i gael pob theatr yn gysylltiedig ar gyfer cyswllt Sganio Er Diogelwch ar gyfer y Claf.**



## Gwersi a Ddysgwyd

**Ymrwymiad**
O bosibl, bydd angen ymrwymo amser ac adnoddau i'r prosiect er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac y gall yr adran elwa o hyn yn y dyfodol.

**Cyfathrebu**
Mae'n bwysig cynnal cyfathrebu cyson rhwng yr adran glinigol a'r partner busnes er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu diweddaru (staff newydd, lleoliadau storfeydd, cynhyrchion, ac ati).

**Hyfforddiant**
Rhaid ystyried argaeledd staff i sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi a chael y cyfle i drafod unrhyw ymholiadau.

**Ymgysylltu**
Rhaid i'r tîm clinigol fod yn rhan o'r prosiect i sicrhau llwyddiant.

**Data**
Mae'n rhaid i archwiliadau stoc a chytundebau llwyth stoc fod ar gael i sefydlu a chytuno ar gynhyrchion y mae angen eu rheoli ynghyd â lefelau Amnewid Awtomatig Cyfnodol (PAR).

## Cysylltiadau

**Ashley Tomlinson**
BIAP - Partner Busnes Rheoli Deunydd Logisteg
ashley.tomlinson2@wales.nhs.uk

**PCGC Sganio Er Diogelwch**
ScanforSafetyWales@wales.nhs.uk
www.nwssp.nhs.wales/Scan4safety/